

Cyngor Cymuned Pentir
Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 8fed o Fawrth 2018
yn Y Swyddfa, Parc Menai am 7pm.

Agenda

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion 8fed o Chwefror 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad ariannol
- Ceisiadau Ad 137
- Taliadau

Adroddiad o'r Is Bwyllgor Asedau

Is Bwyllgorau Ei strwythur

Ceisiadau Cynllunio diweddard ardal Pentir

- C18/0086/25/TC Cais Defnydd Cyfreithlon lleoli carafan ar gyfer defnydd preswyl Coed Bryn Pwll Waen Wen LL57 4UF
- C18/0088/25/LL Cais ol-weithredol estynnu modurdy yn FFERM TYDDYN SYDNEY, TREBORTH, GWYNEDD,

Cais Trwyddedu

Hysbyseb o Gais Deddf Trwyddedu 2013 - Book People Bryn Derwen Parc Menai LL57 4FB

Y Wefan Diweddariad ar y Wefan

Canolfan Penrhos/Ysgol Y Faenol

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Prydles Canolfan Penrhos
 - Ymaelodi a Unllais
- Adroddiadau
 - Ysw y goeden i'r fynwent
 - Cyfarfod Swyddogion Gwynedd ynglyn a torri gwair ychwanegol

Materion y Cynghorwyr

Cynrig Hughes Biniâu Halen ardal Pentir

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 8^{fed} o Chwefror 2018 yn Parc Menai am 7pm

Presennol:

Y Cyng. R Jones, D W Jones, J Pierce, B Jones, C Hughes, D Jones-Morris, M Baines, a James Griffiths
E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, R G. Roberts, L James, H Griffiths a T Anwyl-Williams

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Yn ei sylwadau agoriadol rhoddodd y Cadeirydd amlinnelliad o'r noson hyfforddiant gafwyd ar y cyd a Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen
Nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Richard Jones yn drysorydd Canolfan Gymuned Penrhosgarnedd gan fod
Prydles y Ganolfan honno ar yr Agenda

Cofnodion 11eg o Ionawr

Cyng D Jones-Morris yn cynnig eu bod yn gofnod cywir a'r Cyng Dewi W Jones yn eilio

Materion yn codi o'r cofnodion

Hysbysfyrddau Dim ymateb o Ysbyty Gwynedd ynglyn a gosod un wrth eu mynedfa – **Clerc i ail-anfon**

Hen hysbysfwrdd Canolfan Glasinfryn angen ei dynnu oddi yno **Clerc i holi saer**

Clerc hefyd i drefnu fod goriadau yn cael eu rhoi yn lleol ar gyfer gosod mater yn y byrddau

Cais wedi ei gael gan unigolyn yn holi os gae hysbysebu mater personol yn y byrddau **Cytuno fod angen**

sefydlu rheolau pwy gaiff wneud defnydd o'r offer a gosod y rheolau yn yr Hysbysfwrdd

Cylch Meithrin Penrhos - Neb wedi galw heibio i drafod gyda'r grwp

Cynllunio

Adroddodd y Clerc iddo dderbyn ymholiad am Cais adeiladu C17/1248/25/LL addaswyd i C17/0694/11/LL
2 Maes Mawr gan yr ymgeisydd/wyr. Yr ymholiad oedd pam fod y Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu yr
addasiad tra nad oeddent wedi gwrthwynebu y cais gwreiddiol. Esbonwyd fod y cais gwreiddiol wedi ei
gofrestru ar ol ein cyfarfod yn Gorffennaf ag nad oedd Cyngor yn ystod Mis Awst er bod rhai cynghowyr bryd
hynny wedi datgan gwrthwynebiad nid oedd yn benderfyniad y Cyngor a chyngor Mis Medi rhy hwyr i
ymateb. **Cytunwyd i'r Clerc gyfathrebu yn ol yn cynnig yr esboniad**

Tai'r Felin – Addasiadau/Esboniadau wedi ei rhoi i Cyng Menna Baines am y math o dai/fflatiau fyddai yno

Datgelwyd pryder fod yr allanfa mor agos i'r ysgol

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Ni cyfarfu'r IBC 31ain o Ionawr
- Adroddwyd fod ein cais i Cyngor Gwynedd am Praesept 2018-19 wedi ei anfon a'i gydnabod
- Ceisiadau Ad 137 **Cytunwyd fel a ganlyn**
 - Cais am gyfraniad o Eglwys St Cedol tuag at eu costau torri eu mynwent **Gofyn am fantolen ariannol**
 - Cais Rhieni ag Athrawon Ysgol Y Garnedd **Argymell cyfranu £300.00**
 - Cais am gyfraniad Gwyl Gerdd Dant 2018 Blaenau Ffestiniog **Cydnabod ond dim cyfraniad eleni**

- Cydnabyddiaeth Nawdd

Darllenwyd llythyr o ddiolch o Gym Hanes Dyffryn Ogwen

Is Bwyllgorau Gan fod traean yn absennol **cytunwyd i ohirio edrych ar strwythuriadau yr is-bwyllgorau**

Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- C17/1269/25/LL Dymchwel yr adeiladau presennol a codi 8 ty fforddiadwy ynghyd a creu mynedfa a lle cynnau parcio yn Tai'r Efail, Penrhos Road, Bangor, Gwynedd.

Derbynwyd esboniadau drwy'r Cyng Menna Baines - Caniatau ond nodi pryder yr allanfa

- Ymateb i gyfarfod safle a Shon Williams parthed Llwybr yr Arfordir

Trafodwyd yn agored yr achos yma gan ei fod yn mynd yn ol flynyddoedd yn hytrach na misoedd.

Tra'n gefnogol o'r syniad o gael llwybr arfordirol, nodwyd fod angen parchu preifatrwydd trigolion Gwynedd mae'r Llwybr yn mynd heibio eu eiddo.

Y teimlad yn gyffredinol yn dilyn yr ymweliad safle oedd fod diffyg synnwyr cyffredin yn amlwg iawn.

Yn enwedig parthed costau, gan fod yna opsiynau eraill allai, yn marn y rhai fu'n ymweld, angen eu ystyried.

Tra'n sylweddoli mae un ochr i'r ddadl dderbynwyd ar y diwrnod cytunwyd ag argymhelliad y grwp fynychodd y dylai'r ddwy ochr eistedd gyda canolwr di-duedd i geisio datrys yr anghydfod fel bod y ddwy ochr yn cyfaddawdu.

Cytuno anfon llythyr at Ms Grace Hadley a copi i Prifweithredwr Cyngor Gwynedd, a'r Aelod Cynulliad Sian Gwenllian

- C18/0051/25/LL Adeiladu estyniad unllawr yn gefn yr adeilad 76, Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2NS **Dim Gwrthwynebiad**

Y Wefan Diweddariad ar ddatblygiad y Wefan

Yn absennoldeb Cyng L James adroddodd y Clerc nad oedd y Wefan eto yn fyw er i'r Cyng L James fod wedi gobeithio y byddai wedi dod erbyn hyn.

Materion y Clerc

Gohebiaethau

- Prydles Canolfan Penrhos - y brydles bellach wedi cyrraedd Cwmni Gamlins ag angen trefnu cyfarfod gyda Vernon Oliver **Clerc i drefnu**
- Llywodraethwyr Ysgol Rhiwlas

Adroddwyd fod cais wedi dod i Cyngor Pentir ystyried penodi un o'i cynghorwyr i Llywodraethwyr Ysgol Rhiwlas, gan fod 2 Gyngorydd y pentref wedi ymddiswyddo. 'Roedd traddodiad wedi bod pryd y byddai Cyngor Llanddeiniolen a Cyngor Pentir yn penodi bob yn ail am gyfnod 4 blynedd.

Am wahanol resymau ni allai y rhai agosaf at y pentref ymgymeryd a'r swydd.

- Ffyniau wardiau etholiadol

Trafodwyd argymhelliad yr adroddiad ar newid ffyniau wardiau etholiadau Cyngor Gwynedd. **Dim gwrthwynebiad**

- Adroddiadau

- Cwmp y goeden i'r fynwent

Adroddwyd fod un o goed mynwent Eglwys St Cedol wedi syrthio i fynwent y Cyngor yn dilyn storm ag wedi difrodi y wal derfyn yn ogystal a creu llanast yn y fynwent. Nid oedd difrod i unrhyw fedd. Cafodd ei chlirio a'i gwneud yn saff yn sydyn ai chario oddiar y llwybr. Y Clerc eisioes wedi cysylltu a'r Cwmni Yswiriant.

Diolchwyd i'r Clerc am ei ymateb

- Hysbysfyrddau - 3 bellach wedi eu gosod a disgwyl caniatad i osod y pedwerydd

Taliadau Cytunwyd i dalu M Williams £116 am osod Hysbysfwrdd Y Fynwent a chodi copi wal y fynwent

Materion y Cynghorwyr

Menna Baines - Canolfan Penrhos – Cyng Dafydd Meurig Aelod Cabinet

Adroddwyd fod gwahoddiad wedi ei dderbyn i fynychu cyfarfod rhwng Adran eiddo Cyngor Gwynedd i drafod ymestyniad Ysgol Y Faenol fel rhan o ad-drefnu addysg Gynradd ym Mangor. Cytunwyd dirprwyo aelodau o blith aelodau Penrhos i fynychu

Cynrig Hughes - Biniau Halen ardal Pentir

Tra yn datgan y byddai oherwydd lleoliad ei dy yn elwa tae'r Cyngor yn ymgymeryd a cyflenwi y biniau halen apeliodd i'r Cyngor rhywsut ail-ymweld a'i safiad i beidio ymgymeryd a chyflenwi biniau. **Cytunwyd i'r Is**

Bwyllgor Asedau ystyried ei roi ar eu agenda

Cyng James Griffiths - Gwres yn y swyddfa Gofynnodd os oedd yn bosib cael y sustem i weithio yn well

Cyng Bernard Jones - Cais i gael drych ar y gyffordd Cilgaint Alotan a Ffordd Penrhos gan ei bod yn amhosib gweld y trafndiaeth yn dod o gyfeiriad Ysbyty Gwynedd **Clerc i wneud ymholiad**

Cyng D Jones-Morris - Pryderus ynglyn a gor-yrru ar Ffordd Penrhos **Clerc i wneud ymholiad os oes posibil cael cyfarfod safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd**

Cyngor llawn nesaf 8fed o Fawrth